**Cwestiynau Tendr Digidol**

1. **Ble mae'r tendr hwn yn gadael cwmniau sydd ddim yn llwyddiannus o ran creu cynnwys digidol i S4C dros y ddwy flynedd nesaf? Mae'n teimlo fel fod y cwmniau aflwyddiannus yn mynd i gael ei cau allan o'r siwrna ddigidol.**

   Mae'r gyllideb flynyddol ar gyfer cynnwys digidol yn 2025/26 yn £2 filiwn, gyda chynnydd pellach ar gyfer 2026/27. Mae'r tendr hwn yn un elfen, ond dim ond rhan ohono. Bydd dal cyfle i gwmnïau sydd ddim yn llwyddiannus y tro hwn gynnig syniadau digidol y tu hwn i'r tendr (fel yr arfer).

2. **Mae'r ddogfen yn amwys iawn o ran gwybodaeth ynglŷn a'r cynnwys/genres mae S4C yn chwilio amdano. Pwy yw'r comisiynwyr fydd yng ngofal y cynnwys yma. Does dim gwybodaeth i allu deall at chwaeth pwy dylid anelu'r cynnwys (o ran comisiynwyr)**

   Mae'r pecyn yma o dan ofalaeth Guto Rhun fel comisiynydd, gan drafod yn y drefn arferol gyda'r Prif Swyddog Cynnwys. Hoffwn nodi dylid ystyried y gynulleidfa ac nid y comisiynydd unigol, tra'n cynnig syniadau.

3. **Pam na ellir dobarthu'r arian r.hwng y comisiynwyr a'u bod nhw yn gyfrifol am gomisiynau cynnwys penodol ar draws nifer o gwmniau pan mae syniad sy'n cydio yn cael ei gynnig?**

   Mae'r gyllideb flynyddol ar gyfer cynnwys digidol yn 2025/26 yn £2 filiwn, gyda chynnydd pellach ar gyfer 2026/27. Mae'r tendr hwn yn un elfen, ond dim ond rhan ohono. Bydd dal cyfle i gwmnïau sydd ddim yn llwyddiannus y tro hwn gynnig syniadau digidol y tu hwn i'r tendr (fel yr arfer) i gomisiynwyr eraill.

4. **Cwmniau bach a mawr yn teimlo na alla nhw gynnig am y tendr gan nad yw'r timoedd perthnasol yn bodoli o fewn cwmniau ar hyn o bryd ac nad oes amser digonol i greu tîm o fewn yr amserlen gyfleu/darlledu (diwedd Mawrth 2026).**

   Penderfyniad y cwmnïau yw staffio a sut y byddant yn defnyddio adnoddau.

5. **Nid yw cyfanswm y gyllideb sydd ar gael yn ddigonol i greu a chyflogi tîm am gyfnod o 2 flynedd.**

   Mae cyfnod y gwaith dros 17 mis (Tachwedd 25 – Mawrth 27).

   Mae modd i'r amserlen gyfleu a chyhoeddi fod yn hyblyg – yn enwedig wrth sicrhau'n bod yn cyhoeddi cynnwys cyfredol.

   Nid yw'n angenrheidiol i greu 1 tîm parhaol ar gyfer y cais yma – gellir amrywio'r criw yn unol â'r amserlen gynhyrchu a themâu'r cynnwys yn yr un ffordd a byddai angen ystyried petai'r gwaith yn cael ei gynnig fel pecynnau unigol.

6. **Beth fydd yn digwydd i gynnwys digidol brandiau cyfredol os yw'r pecyn hwn yn creu cynnwys ar themau tebyg? Oes peryg i gwmniau golli gwaith cyfredol gyda'r tendr yma?**

   Ni fydd y tendr yma'n effeithio ar waith sy'n bodoli eisoes. Bydd comisiynu tu allan i'r tendr yn parhau yn ôl yr arfer.

7. **Mae'r tendr yn annog cydweithio rhwng cwmniau. Mae'r broses o greu partneriaeth a chytuno ar strwythr rheoli a hawliau yn broses hir a chymhleth. Nid yw amserlen y tendr yn caniatau y lefel yna o drafodaethau.**

   Mae'r tendr yn cynnig y cyfle i gwmnïau greu partneriaeth os ydynt yn teimlo byddai o fudd iddynt, ac yn cynnig cyfle i gwmnïoedd gydweithio drwy rhannu arbenigedd – nid yw hyn yn orfodol

8. **Os nad yw cwmni yn ymgeisio mae pryder y gall hyn ymddangos nad yw'r cwmni yn gefnogol o weledigaeth strategaeth 'Digidol yn Gyntaf' S4C.**

   Os bydd Cwmni yn penderfynu peidio ymgeisio - Ni fydd hyn yn adlewyrchu ar eu perthynas â S4C nac yn ymddangos fel diffyg cefnogaeth i'r strategaeth 'Digidol yn Gyntaf.'

9. **Mae angen tîm profiadol i arwain ar waith o'r math yma ac nid yw'r gyllideb yn caniatau i greu tîm o'r fath. Nid yw hwn yn waith sy'n addas ar gyfer criw ifanc dibforfiad i ddysgu a magu crefft.**

   Mae angen pob lefel o dîm/profiad ar draws timoedd cynhyrchu – o aelodau profiadol sydd â hanes o gynhyrchu cynnwys digidol, yn ogystal a chyfleoedd i staff newydd

10. **Mae cyllideb o'r fath yn anfon neges wael i'r diwydiant gan nad yw'n caniatau i gyflogi criw llawn ar gyfer comisiynau o'r fath ac felly yn rhoi'r argraff nad yw rhai swyddi o fewn criw yn cael ei parchu. Gall gael effaith negyddol ar sefyllfa'r diwydiant yng Nghymru.**

    Mae'r gyllideb yma ar gyfer cynnwys digidol yn unig ac nid yw'n effeithio ar y drefn arferol o gomisiynu cynnwys arall.

    Mae arddull cynhyrchu cynnwys digidol yn aml yn fodel gwahanol i gynhyrchu gyda thimau llai, cylchoedd cyflymach, a chyllidebau sydd is na darlledu traddodiadol a'r pris yn adlewyrchiad o fodelau cynhyrchu tebyg eraill ar draws y diwydiant.

11. **Nid yw £1,000 y funud yn realistig i gynnwys o'r math hwn.**

    Mae'r gyllideb yma ar gyfer cynnwys digidol yn unig ac nid yw'n effeithio ar y drefn arferol o gomisiynu cynnwys arall.

Mae arddull cynhyrchu cynnwys digidol yn aml yn fodel gwahanol i gynhyrchu gyda thimau llai, cylchoedd cyflymach, a chyllidebau sydd is na darlledu traddodiadol a'r pris yn adlewyrchiad o fodelau cynhyrchu tebyg eraill ar draws y diwydiant.

12. **Mae gosod pris o'r fath yn creu pryder ar gyfer y dyfodol wrth i S4C lawnsio strategaeth 'Digidol yn Gyntaf'. Beth mae hyn yn ei olygu o ran tariff cost yr awr S4C i'r dyfodol?**

    Pecyn o waith ar gyfer platfformau digidol S4C ydy'r tendr yma. Rhan o strategaeth digidol yn gyntaf, ac nid yw hyn yn gosod cynsail ar gyfer unrhyw gynnwys arall.

13. **Mae'r tendr yn nodi y gall S4C benderfynu creu'r cynnwys yn fewnol. Mae hyn yn codi pryder gan nad yw S4C wedi creu cynnwys yn fewnol yn y gorffenol. Yw S4C yn edrych ar fodel tebyg i C4 Productions yn y dyfodol?**

    Mae hwn yn eiriad arferol mewn tendrau – ond er mwyn osgoi dryswch mae'r cymal yma wedi cael ei ddileu o'r tendr.

14. **Yw'r tendr yn gofyn am un gyfres neu pecyn o wahanol gyfresi? Mae'r wybodaeth yn anelwig.**

    Mae'r pecyn yn edrych am amryw o gynnwys digidol – gall rhain fod yn gyfuniad o gyfresi byrion, straeon unigryw neu eitemau unigol.

15. **Oes rhaid i'r bartneriaeth / cwmni unigol wario'r gyllideb gyfan NEU ydy'r amcanbris ar y pecyn tendr yn gallu cael ei wario ar nifer o syniadau rhwng sawl cwmni?**

    Petai partneriaeth yn llwyddiannus mae'r trefniant am sut i weithredu'r bartneriaeth yn benderfyniad i'r cwmnïoedd gytuno rhyngddynt.

16. **Amser rhoi bid at ei gilydd - negydu partneriaeth gyda chwmni arall a thynnu popeth arall sydd angen at ei gilydd yn afresymol o fyr. Gofyn i'r broses gymryd 3 mis nid tair wythnos - ac os nad yw hynny'n bosib 2 fis er tegwch i'r sector.**

    Mae'r amserlen wreiddiol wedi cael ei ymestyn. Nid yw creu partneriaeth yn hanfodol.

17. **Beth sy'n digwydd i bethau digidol sydd o fewn trafodaeth yn barod - ar gyfer ail gyfres etc.**

    Nid yw'r tendr yma'n effeithio unrhyw syniadau eraill sydd wrthi'n cael eu hystyried neu wedi cychwyn cynhyrchu.

18. **Beth sy'n digwydd i gwmnïau nad ydynt yn llwyddiannus - ble mae'r cwmnïau yma yn ffitio mewn i weledigaeth ddigidol S4C? Yn enwedig gan fod nifer am fod yn rhan o weledigaeth ddigidol y sianel, ond a fydd hyn yn creu 'super company' digidol ac yn gadael pawb arall ar ôl?**

    Mae'r gyllideb flynyddol ar gyfer cynnwys digidol yn 2025/26 yn £2 filiwn, gyda chynnydd pellach ar gyfer 2026/27. Mae'r tendr hwn yn un elfen, ond dim ond rhan ohono. Bydd dal cyfle i gwmniau sydd ddim yn llwyddiannus y tro hwn gynnig syniadau digidol y tu hwn i'r tendr (fel yr arfer)

19. **Sut gall un bartneriaeth fod ar draws pob genre?**

    Mae nifer o gwmnioedd cynhyrchu yn creu cynnwys ar draws amryw o genres yn barod – nid yw hwn yn gais anarferol.

    Nid yw partneriaethau'n hanfodol.

20. **Yr argraff yw nad yw S4C yn deall yr hyn sydd yn mynd mewn i gynhyrchu rhywbeth i ddigidol. Nid yw digidol o angenrheidrwydd bob tro yn golygu rhatach na chwaith llai o staff.**

    Mae'r tendr yn cynnig pecyn o waith sydd yn cyd-fynd a phatrymau cynhyrchu, cynnwys a chyllideb nifer o brosiectau blaenorol. Mae cynnig pecyn yn galluogi cwmnioedd i gael sicrwydd gwaith, edrych ar effeithlonrwydd cyllidebol a medru ymateb i greu cynnwys cyfredol.

21. **Rhoddwyd yr argraff yn y lansiad bod £1m wedi cael ei glustnodi a'r argraff y byddai modd cael cystadleuaeth gydradd am y gwaith yna. Ni ddywedwyd bod bwndel o'r maint yma yn cael ei roi allan sydd yn dra gwahanol ac yn awgrymu bod cwmni o faint penodol gyda'r staff digonol yn gallu mynd amdano.**

    Mae'r gyllideb flynyddol ar gyfer cynnwys digidol yn 2025/26 yn £2 filiwn, gyda chynnydd pellach ar gyfer 2026/27. Mae'r tendr hwn yn un elfen, ond dim ond rhan ohono. Bydd dal cyfle i gwmniau sydd ddim yn llwyddiannus y tro hwn gynnig syniadau digidol y tu hwn i'r tendr (fel yr arfer)

    Drwy gynnwys yr opsiwn i bartneriaethau mae hyn yn sicrhau bod cyfle i bob cwmni fedru cystadlu am y gwaith.

22. **Mae angen annog 'plurality of supply' ond nid yw'r tendr yn cefnogi hyn nac ychwaith datblygu cwmnïau llai sydd yn aml yn fwy tebol i'r gwaith yma. I gamu mewn i Ddigidol mae'n rhaid buddsoddi mewn eco system mwy cydradd ac amrywiol.**

    Mae'r gyllideb flynyddol ar gyfer cynnwys digidol yn 2025/26 yn £2 filiwn, gyda chynnydd pellach ar gyfer 2026/27. Mae'r tendr hwn yn un elfen, ond dim ond rhan ohono. Bydd dal cyfle i gwmniau sydd ddim yn llwyddiannus y tro hwn gynnig syniadau digidol y tu hwn i'r tendr (fel yr arfer)

    Drwy gynnwys yr opsiwn i bartneriaethau mae hyn yn sicrhau bod cyfle i bob cwmni fedru cystadlu am y gwaith.

23. **Mae gan gwmnïau sawl prosiect arall mewn llaw ac mae 3 wythnos o ystyried maint y gofyn yn annheg dros ben. Mae'r BBC ar gyfartaledd yn rhoi 6 i 9 mis o'r neilltu ar gyfer pob tendr. Maent yn amrywio hefyd y maint o waith sy'n ddisgwyliedig am faint y cytundeb dan sylw. Hefyd mae angen cymal cyn hynny er mwyn arbed gwaith i'r darlledwr a'r cwmni sef eligibility test yn ôl y criteria o arbenigedd a phrofiad sydd ei angen.**

    O ran sylw am amserlen ddarlledwyr eraill, nid yw hyn yn wir ym mhob achos – mae nifer o enghreifftiau lle mae darlledwyr eraill yn gofyn am gynnwys dros gyfnodau tebyg.

24. **Os ydi S4C yn penderfynu gwahanu elfennau'r tendr i'w cynhyrchu gan fwy nag un cwmni llwyddiannus, sut mae hyn yn mynd i effeithio ar y gyllideb?**

    Petai hwn yn benderfyniad byddai trafodaeth o rannu'r gyllideb yn ôl nifer y munudau sy'n cael eu cynhyrchu gan y cwmnioedd perthnasol – ond y bwriad yw i gyflwyno'r tendr i 1 cwmni / neu 1 partneriaeth.

25. **Sut mae'r broses cymeradwyo cynnwys yn mynd i weithio? Ai un comisiynydd sydd yn cymeradwyo popeth?**

    Comisiynydd y tendr yma fydd yn cymeradwyo'r gwaith gyda chefnogaeth gan Y Prif Swyddog Cynnwys.

26. **Oes modd cadarnhau bydd y cwmni llwyddiannus hefyd yn dosbarthu'r cynnwys ai peidio?**

    Ni fydd yn ddisgwyliedig i'r cwmni lwyddiannus fod yn gyfrifol am ddosbarthu'r cynnwys. Mi fydd trefn arferol o gyfleu cynnwys digidol S4C yn ei le.

27. **A'i dim ond ar gyfrfion @S4C bydd y cynnwys yma yn byw?**

    Mi fydd y cynnwys yma yn eistedd ar blatfformau prif gyfrif S4C

28. **Ai 14/11/2025 - 31/03/2027 ydi'r cyfnod yn hytrach na dwy flynedd?**
    Cywir

29. **Yda chi'n chwilio am gynnwys wedi'i sgriptio?**

    Ni fyddwn yn chwilio am gynnwys wedi'i sgriptio.

30. **Ai ar blatfform youtube S4C fydd y cynnwys yn cael ei gyhoeddi ac fydd 'na 'frand' arbennig ar gyfer y cynnwys hwn?**

    Mi fydd y cynnwys yn cael ei gyhoeddi ar blatfformau digidol S4C ac ni fydd brand arbennig ar gyfer y cynnwys.